**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**21 GORFFENNAF 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mercher, 21 Gorffennaf 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Ted Palmer, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Derek Butler a Mike Peers

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol i siarad yn ystod eitemau penodol:
Y Cynghorydd Michelle Perfect – Eitem 6.6 (060699)
Y Cynghorydd Aaron Shotton – Eitem 6.3 (061294)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Arweinydd Tîm – Cynllunio, Swyddogion Cynllunio, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiadau Priffyrdd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 8. DATGAN CYSYLLTIAD

O ran eitem 6.5 (062300) dywedodd y Cynghorydd Christine Jones, er nad oedd ganddi gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu, ei bod hi fel Aelod Lleol wedi mynegi pryderon ynghylch y cais ar ran trigolion lleol. Oherwydd hynny, ni fyddai'n siarad nac yn pleidleisio ar y cais.

O ran eitem 6.2 (062917) dywedodd y Cynghorydd Veronica Gay fod pobl wedi cysylltu â hi ar fwy nag un achlysur ynglŷn â'r cais.

## 9. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd cyn y cyfarfod ac a oedd wedi'u hatodi i'r rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4861&LLL=1

## 10. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021 yn gywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Richard Lloyd a Chris Bithell eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 11. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio dim un o'r eitemau.

## 12. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y'i cyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio a oedd ynghlwm fel atodiad.

## 13. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Ar ddechrau'r cyfarfod nid oedd yr un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 4pm)

……………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gwe-ddarlledu a gellir eu gwylio drwy fynd i'n llyfrgell o we-ddarllediadau ar: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 21 GORFFENNAF 2021**

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 052236 | Cyngor Cymuned Llanfynydd | Amlinellol - cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig yn Iard Atlas, Ffordd Corwen, Pontybotgin | - | Gwrthod caniatâd cynllunio yn unol ag argymhelliad y swyddog am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad. |
| 062917 | Cyngor Tref Saltney | Cais llawn – codi estyniad ar ochr ac estyniad un llawr ar gefn 5 Alyndale Road, Saltney | Darllenwyd datganiad o gefnogaeth ar ran yr ymgeisydd, Mr S Harris.<br><br>Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran preswylydd lleol, Mrs Chaloner. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 061294 | Cyngor Tref Cei Connah | Cais llawn – newid defnydd eiddo o annedd i dŷ amlfeddiannaeth, 7 Howard Street, Cei Connah | Siaradodd y Cynghorydd Aaron Shotton, fel yr Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 062110 | Cyngor Cymuned Cilcain a Chyngor Cymuned Helygain | Cais llawn – echdynnu 28.38 miliwn tunnell, fesul cam, o galchfaen o ardal a ganiateir yn Chwarel Hendre ac o estyniad dwyreiniol y chwarel fel estyniad cynhwysfawr a chynllun cyfuno; cadw'r gwaith prosesu presennol a'r isadeiledd cysylltiedig am oes y datblygiad; cadw a defnyddio'r mynediad presennol am oes y datblygiad; adeiladu a thirlunio tirffurf sgrinio; a gweithredu cynllun adfer ar gyfer y chwarel bresennol a'r estyniad yn Chwarel Hendre, Ffordd Dinbych, Rhyd-y-mwyn | Siaradodd Mr M Lawer, Asiant, o blaid y cais.<br><br>Darllenwyd datganiad o gefnogaeth, gydag amodau, ar ran Cyngor Cymuned Cilcain.<br><br>Atodwyd datganiad o gefnogaeth gan yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Colin Legg, i'r adroddiad ar y rhaglen. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod bod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 i ffurfioli'r taliad blynyddol a wneir i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar gyfer rheoli Gwarchodfa Natur Coed y Felin ac amrywio'r cytundeb cyfreithiol presennol sy'n cynnwys cyfyngiad ffrwydradau uwch o 20mm/s ppv ar gyfer fferm Gwrachen, a'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. Hefyd, yn amodol ar y tri amod a gyflwynwyd gan United Utilities fel y'u gwelir yn y sylwadau hwyr. |
| 062300 | Cyngor Cymuned Sealand | Amrywio/Tynnu Amod - cais i amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio 059514 yn hen wersyll Sealand South y Llu Awyr Brenhinol, Welsh Road, Sealand. | Fel yr Aelod Lleol, ni chymerodd y Cynghorydd Christine Jones ran yn y drafodaeth na phleidleisio fel y nodir dan yr eitem Datgan Cysylltiad. | Rhoi caniatâd cynllunio i amrywio'r amod cynllunio a'r Cytundeb Adran 106 cysylltiedig fel y nodir yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 060699 | Cyngor Tref y Fflint | Amlinellol - cais amlinellol, gyda'r holl faterion wedi'u neilltuo i'w cymeradwyo'n ddiweddarach, ar gyfer codi hyd at 18 o anheddau ac ymgymryd â gwaith cysylltiedig yn Nhan y Bryn, Ffordd Bryn, y Fflint. | Siaradodd Mr V Davies, preswylydd lleol, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Michelle Perfect, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad swyddog, am y rhesymau canlynol: Bod y cynnig yn (i) gorddatblygu'r safle a (ii) heb gynllun priffyrdd digonol i ddarparu mynediad. |
| 060591 | Cyngor Cymuned Llanasa | Cais llawn - newid defnydd tir ar gyfer 4 Llain Sipsiwn / Teithwyr ac 1 bloc amwynder cymunedol / ystafell ddydd ym Myngalo Tŷ Dŵr, Tanlan, Ffynnongroyw | Siaradodd Mr T Mennell, yr asiant, o blaid y cais.<br><br>Atodwyd datganiad o wrthwynebiad gan breswylydd lleol i'r adroddiad yn y rhaglen.<br><br>Nodwyd cais am hyfforddiant pellach i Aelodau. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |